**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/LA/1827/15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddFinance@assembly.wales

10fed Gorffennaf 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mai ynghylch *Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16*. Cyfeirioch at y cyllid ychwanegol o £250,000 a roddwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer archwiliadau ad hoc, a gofynnoch am fy marn ar effaith y gwaith hwn ar yr adnoddau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol.

Mae dyraniadau'r cyllid hwn yn fater i'r Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Leol. Ac felly, nid wyf wedi asesu effaith archwiliadau ad hoc yr Archwilydd Cyffredinol ar yr adnoddau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn benodol. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi pryderon y Pwyllgor Cyllid o ran sicrhau y defnydd gorau posibl o'r adnoddau hyn, a'u bod yn cael eu targedu mewn modd effeithiol.

Yn amlwg, bydd goblygiadau o ran adnoddau i'r Awdurdodau dan sylw yn sgil unrhyw ymchwiliad sy'n gofyn am gyfraniad Awdurdodau Lleol. Rwy'n cydnabod gwerth cynnal archwiliad ac adolygiad effeithiol i wella gwasanaethau cyhoeddus. Rwy hefyd yn cydnabod bod cost ynghlwm wrth gefnogi hynny. Yn unol â'r angen i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithlon, effeithiol ac economaidd, mae'n amlwg y dylai unrhyw alwadau ar adnoddau Awdurdodau Lleol a allai ailgyfeirio staff neu gyllid o wasanaethau rheng flaen gael eu cadw i'r lleiaf posibl. Dylai'r amser a'r cyfraniad fod yn gymesur â'r mater sy'n cael ei ymchwilio a'r cyfraniad posibl at ddarparu gwasanaethau lleol gwell, a chael ffydd yn y gwasanaethau hynny.

Rhaid i'r Awdurdodau gydweithredu'n llawn â'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo gynnal ei archwiliadau a'i ymchwiliadau. Fodd bynnag, byddai'n rhesymol disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol asesu effaith unrhyw waith ychwanegol, yn arbennig os yw'n gysylltiedig â chais am gyllid ychwanegol, ac yn cynnwys ailgyfeirio adnoddau neu ailflaenoriaethu gwaith arall. Mae'r pwysau parhaol ar gyllid cyhoeddus hefyd yn cadarnhau'r angen i sicrhau bod gwahanol rannau'r broses archwilio, ymchwilio a rheoleiddio cyhoeddus yn cydweithio fel bod y gwaith yn cael ei gynllunio a'i gyd-drefnu mor effeithiol ag sy'n bosibl ac yn ystyried yr effaith ar y cyrff dan sylw.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.Leighton.Andrews@cymru.gsi.gov.uk